EQUITY

# LLYFR RHEOLAU

# RHAGFYR 2022

Undeb Llafur Annibynnol

Ysgrifennydd Cyffredinol Paul W Fleming

## CYNNWYS


**A. Enw a Swyddfa** **7**

**B. Nodau** **8**

**C. Pwerau** **9**

**D. Aelodaeth** **11**

Cymhwystra
Categorïau a Meini Prawf Cymhwystra
Ceisiadau
Sylwadau
Dyddiad Derbyn
Cyfathrebu ag Aelodau
Rhwymedigaethau Aelodau
Buddion a Hawliau Aelodau
Dal Arian Aelodau
Tynnu'n Ôl yn Anrhydeddus
Terfynu Aelodaeth
Ail-ymuno

**E. Tanysgrifiadau a Thaliadau Eraill** **17**

Ffi Cais
Tanysgrifiad Blynyddol
Swm a Chyfraddau
Dirwyon ac Ardollau

**F. Cyfarfodydd Aelodau** **19**

Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol
Cyfarfodydd Cyffredinol

**G. Cymorth Cyfreithiol** **20**

Ceisiadau
Darpariaeth
Amodau
Indemniad

**H. Dirprwyon** **23**
Penodi
Awdurdod
**I. Cwynion** **24**
**J. Y Cyngor** **24**
Awdurdod
Aelodau'r Cyngor
Cymhwystra
Etholiadau'r Cyngor
Tymor Swydd a Chyfarfodydd
Pwerau'r Cyngor
Pwyllgorau a'r Cyngor
Rheolau Sefydlog
**K. Ymddiriedolwyr** **35**
Penodi
Dyletswyddau
**L. Swyddogion Etholedig** **36**
**M. Llywydd** **37**
Tymor
Ymgeiswyr
Etholiadau
Dyletswyddau
**N. Is-lywyddion** **40**
Etholiadau
Dyletswyddau
**O. Trysorydd Anrhydeddus** **41**
Etholiadau
Dyletswyddau

**P. Ysgrifennydd Cyffredinol** 43
Tymor
Cymhwystra
Etholiadau
Dyletswyddau
**Q. Cyllid** 49
Blwyddyn Ariannol
Cofnodion Cyfrifo
Cronfeydd yr Undeb
Benthyciadau
Gwariant Gweinyddol
**R. Archwilydd Annibynnol** 51
Penodi
Rôl
**S. Camau Disgyblu** 52
Perthnasedd
Cyhuddiadau
Pwyllgor Disgyblu
Cosbau
Atal Dros Dro
Apeliadau
Awdurdod Parhaus
**T. Cynhadledd Equity** 56
Diben
Y Cynrychiolwyr
Cyngor
Ymddiriedolwyr
Pwyllgor Busnes y Gynhadledd
Aelodau Undeb
Cynigion
Trefniant Busnes
Cworwm

**U. Cynhadledd Arbennig** **63**
Wedi'i galw gan y Cyngor
Trefniadau
Cworwm
**V. Rheolau Trafodaeth** **64**
Perthnasedd
Siaradwyr
Cynigion
Galw i Drefn
Atal
**W. Pwyllgor Apeliadau** **67**
Etholiad
Tymor
Dyletswyddau
**X. Pwyllgor Busnes y Gynhadledd** **68**
Etholiad
Tymor
Dyletswyddau
**Y. Refferendwm** **70**
**Z. Newidiadau i Reolau** **71**
Copïau o'r Rheolau hyn
Dull ar gyfer Gwneud Newidiadau
**AA. Diddymiad yr Undeb** **72**
**i. Pryd daeth y Rheolau hyn i rym** **74**

## A. Enw a Swyddfa

A1. Bydd yr Undeb yn cael ei alw'n "Equity (Yn Ymgorffori'r Ffederasiwn Artistiaid Amrywiol)" neu'n "Equity" yn fyr.

A2. Ei swyddfa gofrestredig yw Guild House, Upper St Martin's Lane, Llundain, WC2H 9EG, neu yn unrhyw le arall y bydd y Cyngor yn ei benderfynu.

## B. Nodau

B1. Nodau'r Undeb fydd:

(1) diogelu a hyrwyddo buddiannau aelodau;

(2) cynnal a gwella perthynas rhwng aelodau a'r rheini sy'n eu cyflogi neu'n ymgysylltu â hwy mewn modd arall;

(3) gwella tâl ac amodau aelodau;

(4) gwarchod a hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac economaidd celfyddydau a chyfryngau byw ac wedi'u recordio;

(5) hyrwyddo cyfle cyfartal i aelodau yn y gwaith ac yng ngwasanaethau ac arferion cyflogaeth yr Undeb;

(6) gwrthwynebu erledigaeth anghyfreithlon, aflonyddu a gwahaniaethu ar y seiliau a waherddir dan gyfraith cydraddoldeb ac ar sail dosbarth cymdeithasol;

(7) darparu buddion a gwasanaethau i aelodau yn unol â'r Rheolau hyn;

(8) cefnogi a chynorthwyo unigolion a sefydliadau y mae eu nodau yr un fath neu'n debyg i Nodau'r Undeb, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## C. Pwerau

C1. Yn ogystal â'r Pwerau y cyfeirir atynt mewn mannau eraill yn y Rheolau hyn, er mwyn hyrwyddo ei Nodau, gall yr Undeb:

(1) negodi cyfraddau tâl ac amodau;

(2) trefnu ac ymgyrchu dros bolisïau a deddfwriaeth;

(3) casglu a derbyn ffioedd, tanysgrifiadau, rhoddion o arian ac eiddo ac unrhyw daliadau eraill;

(4) sicrhau benthyciadau, gorddrafftiau ac unrhyw gyfleusterau bancio eraill;

(5) cynnal a dosbarthu cronfeydd llesiannol a chronfeydd eraill;

(6) sefydlu arian ymladd;

(7) cynnal cronfa bensiwn ar gyfer ei gyflogeion;

(8) cytuno ar gytundebau yswiriant;

(9) darparu buddion damweiniau, angladd a buddion a gwasanaethau eraill, yn uniongyrchol neu drwy drydydd partïon;

(10) cynnal cynlluniau cymorth cyfreithiol;

(11) gweithredu trefnu cynlluniau trwyddedu cyfunol;

(12) casglu a dosbarthu breindaliadau a thaliadau eraill i aelodau;

(13) cadw arian o'r cronfeydd yn Rheol C1 (12) i dalu costau casglu a dosbarthu;

(14) defnyddio arian heb ei ddosbarthu yn Rheol C1 (12) er budd cyffredinol yr aelodau;

(15) cynhyrchu cyhoeddiadau perthnasol;

(16) caffael, dal a gwerthu eiddo, gan gynnwys tir neu adeiladau;

(17) sefydlu a/neu fod yn berchen ar gangen fasnachu i godi arian;

(18) gweithio gydag eraill y mae eu nodau yr un fath neu'n debyg i Nodau'r Undeb, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar yr amod nad yw'r Undeb yn gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol; a

(19) chymryd unrhyw gamau eraill a fydd yn helpu'r Undeb i hyrwyddo ei Nodau.

## D. Aelodaeth

*Cymhwystra*

D1. Mae'r Undeb yn cynrychioli aelodau sy'n astudio neu'n gweithio yn y celfyddydau a'r cyfryngau byw ac wedi'u recordio.

D2. Gall unrhyw un sy'n astudio, gweithio neu'n chwilio am waith yn y meysydd hyn sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra wneud cais i ymuno â'r Undeb.

D3. Gall y Cyngor dderbyn person nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwystra os yw'n penderfynu bod gan y person gysylltiad mor agos â'r meysydd yn Rheol D1 fel ei fod yn eu cymhwyso i fod yn aelod.

*Categorïau a Meini Prawf Cymhwystra*

D4. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y gwahanol gategorïau aelodaeth (e.e. aelod myfyriwr, aelod llawn ac ati) a'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhain o bryd i'w gilydd. Bydd manylion y meini prawf sy'n berthnasol i'r gwahanol gategorïau ar gael ar wefan Equity.

D5. Gall y Cyngor ddyfarnu aelodaeth oes anrhydeddus ac aelodaeth dros dro i unrhyw berson.

D6. Gall y Cyngor osod cyfraddau gwahanol o ran ffioedd mynediad a thanysgrifiadau a darparu ar gyfer hawliau gwahanol i fuddion, i bleidleisio ac i sefyll am swydd rhwng y categorïau aelodaeth.

*Ceisiadau*

D7. Bydd ceisiadau am aelodaeth yn cael eu gwneud ar ffurflen gais yr Undeb a'u cyflwyno i'r Undeb gyda'r ffi ymgeisio a'r tanysgrifiad cywir.

D8. Penderfynir ar geisiadau a dyfarniadau gan y Cyngor drwy bleidlais fwyafrifol.

D9. Gall y Cyngor wrthod cais dros dro o dan yr amgylchiadau canlynol:

(1) nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra;

(2) byddai ymddygiad yr ymgeisydd (ar unrhyw adeg) yn cyfiawnhau camau disgyblu o dan y Rheolau hyn pe bai wedi bod yn aelod ar y pryd;

(3) bod yr ymgeisydd yn aelod o blaid neu sefydliad gwleidyddol y mae ei amcanion yn groes i Nodau cydraddoldeb yr Undeb yn Rheolau B1(5) a B1(6); neu

(4) bod yr ymgeisydd wedi ei ddiarddel o'r Undeb yn flaenorol ac nid yw'r Cyngor wedi cymeradwyo ei ail-dderbyn.

*Sylwadau*

D10. Os caiff cais aelodaeth ei wrthod dros dro bydd yr Undeb yn hysbysu'r ymgeisydd o'r rheswm a'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor.

D11. Bydd y Cyngor yn ystyried y sylwadau yn deg ac yn penderfynu ar y cais drwy bleidlais fwyafrifol.

*Dyddiad Derbyn*

D12. Daw aelodaeth i rym at ddibenion buddion, hawliau a rhwymedigaethau aelodau o'r dyddiad y caiff ymgeisydd ei gofnodi ar gofrestr aelodau'r Undeb.

*Cyfathrebu ag Aelodau*

D13. Ystyrir bod gohebiaeth ysgrifenedig gan yr Undeb i aelod wedi'i dderbyn os caiff ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad diwethaf a ddarparwyd.

*Rhwymedigaethau Aelodau*

D14. Bydd pob aelod yn:

(1) cadw at y Rheolau hyn;

(2) cadw at unrhyw benderfyniad a wneir yn briodol o dan y Rheolau hyn;

(3) ymatal rhag ymddygiad sy'n niweidiol i fuddiannau'r Undeb;

(4) ymddwyn yn rhesymol wrth ymdrin â chyd-aelodau a staff Equity;

(5) talu'r tanysgrifiad cywir a chynnal taliadau; a

(6) hysbysu'r Undeb yn ysgrifenedig am unrhyw newid cyfeiriad parhaol.

D15. Gall methiant gan aelod i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau yn Rheol D14 arwain at gamau disgyblu.

*Buddion a Hawliau Aelodau*

D16. Mae gan aelodau mewn budd hawl i'r buddion a'r hawliau y darperir ar eu cyfer yn y Rheolau hyn. Mae "mewn budd" yn golygu aelod nad yw wedi ymddiswyddo, wedi tynnu'n ôl yn anrhydeddus neu wedi'i atal neu ei ddiarddel ac nad yw dros 13 wythnos mewn dyled gydag unrhyw danysgrifiad, dirwy neu ardoll.

D17. Mae aelodau nad ydynt mewn budd yn colli eu hawliau yn ôl Rheol D16 ac eithrio yn ôl disgresiwn y Cyngor.

D18. Rhoddir cerdyn aelodaeth i bob aelod.

D19. Bydd unrhyw aelod a drosglwyddodd o'r Variety Artistes' Federation (y VAF) yn cael ei drin fel aelod o Equity o'r dyddiad y daeth yn aelod o'r VAF.

D20. Gall yr Undeb ddarparu buddion damweiniau, angladdau ac unrhyw fuddion a gwasanaethau eraill y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Dal Arian Aelodau

D21. Bydd yr Undeb yn dal unrhyw arian a dderbynnir ar ran aelod.

D22. Anfonir hysbysiad drwy'r post at yr aelodau ynglŷn ag unrhyw arian o'r fath a ddelir ar eu rhan.

D23. Os nad yw'r Undeb, ar ôl dwy flynedd o ddyddiad yr hysbysiad, wedi derbyn cyfarwyddyd gan yr aelod neu ei gynrychiolydd personol i waredu'r arian, gall y Cyngor ddefnyddio'r arian er budd yr Undeb.

D24. Bydd rheol D23 yn berthnasol dim ond os yw'r Cyngor wedi gosod hysbyseb mewn o leiaf ddau rifyn o'r cylchgrawn Equity, yn gofyn am gyfarwyddiadau gan yr aelod neu ei gynrychiolydd personol mewn perthynas ag unrhyw arian a ddelir.

*Tynnu'n Ôl yn Anrhydeddus*

D25. Gall aelod wneud cais i dynnu'n ôl yn anrhydeddus o aelodaeth.

D26. Bydd y Cyngor o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar y rhesymau dros dynnu'n ôl, a'r drefn a fydd yn berthnasol.

D27. Bydd aelod sy'n dymuno tynnu'n ôl o dan Reol D25 yn talu ffi cais. Ni fydd unrhyw danysgrifiad aelodaeth yn ddyledus yn ystod y cyfnod tynnu'n ôl.

D28. Gall aelod ailymgeisio am dynnu'n ôl yn anrhydeddus. Codir ffi cais ar bob cais.

*Terfynu Aelodaeth*

D29. Gall aelod ddod â'i aelodaeth i ben drwy anfon ymddiswyddiad ysgrifenedig at yr Ysgrifennydd Cyffredinol neu'r aelod o staff a awdurdodwyd i weithredu fel ei gynrychiolydd at y dibenion hyn. Bydd rhestr o aelodau staff perthnasol ar gael ar gais.

D30. Bydd aelodaeth yn dod i ben yn awtomatig ar gyfer unrhyw aelod sydd wedi'i ddiarddel.

D31. Mae pob tanysgrifiad sy'n ddyledus yn daladwy tan y dyddiad y derbynnir ymddiswyddiad neu ddyddiad unrhyw ddiarddeliad. Bydd pob tanysgrifiad neu arian arall a delir i'r Undeb gan aelod sy'n ymddiswyddo neu'n cael ei ddiarddel yn cael ei fforffedu i'r Undeb.

D32. Bydd aelodaeth yn dod i ben yn awtomatig pan fydd aelod yn mynd i 13 wythnos o ddyled gyda'i danysgrifiad. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor atal terfyniad awtomatig os bydd, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, yn penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny.*

*Ail-ymuno*

D33. Gall aelod sydd wedi ymddiswyddo neu golli aelodaeth (am unrhyw reswm) wneud cais i ail-ymuno â'r Undeb. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y cais yn unol â'r Rheolau hyn. Gall y Cyngor fynnu bod yr ymgeisydd yn talu ffi ail-ymuno a/neu dalu unrhyw ôl-ddyledion fel amod i ail-ymuno.

---

## E. Tanysgrifiadau a Thaliadau Eraill

*Ffi Cais*

E1. Mae ffi cais yn ddyledus wrth wneud cais am aelodaeth o'r Undeb.

*Tanysgrifiad Blynyddol*

E2. Bydd aelodau yn talu tanysgrifiad aelodaeth blynyddol, yn daladwy ymlaen llaw neu mewn rhandaliadau cyfartal ymlaen llaw.

*Gweler tudalen 74 parthed Rheol D32.

*Swm a Chyfraddau*

E3. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar swm a dyddiad/au dyledus y ffi ymgeisio a'r tanysgrifiad blynyddol o bryd i'w gilydd.

E4. Gall y Cyngor osod cyfraddau tanysgrifio gwahanol drwy gyfeirio at lefelau enillion aelodau.

E5. Gall aelod ysgrifennu at y Trysorydd Anrhydeddus i ofyn a all dalu tanysgrifiad gostyngol (neu ddim tanysgrifiad) ar sail caledi ariannol. Os yw'n anfodlon â phenderfyniad y Trysorydd Anrhydeddus, gall apelio i'r Cyngor, a fydd yn penderfynu ar y mater drwy bleidlais fwyafrifol.

*Dirwyon ac Ardollau*

E6. Bydd aelodau'n talu unrhyw ddirwy a osodir arnynt yn unol â'r Rheolau hyn.

E7. Gall yr Undeb osod ffi ychwanegol ar aelodau at ddiben penodol, a elwir yn "ardoll". Dylid talu ardoll ar unwaith pan ddaw'n ddyledus.

E8. Bydd y Cyngor yn penderfynu a oes unrhyw ardoll yn ddyledus. Ni cheir gosod mwy nag un ardoll yn nhymor y Cyngor oni bai y cymeradwyir hynny gan bleidlais fwyafrifol mewn Cynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig neu drwy Refferendwm.

## F. Cyfarfodydd Aelodau

F1. Gall y Cyngor alw:

(1) Cyfarfodydd Cenedlaethol;

(2) Cyfarfodydd Rhanbarthol;

(3) Cyfarfodydd Cyffredinol.

*Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol*

F2. Cynhelir Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol unwaith bob blwyddyn galendr i'r graddau y mae hynny'n ymarferol.

F3. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar amser a lleoliad Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol ac a fydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu mynychu yn bersonol neu ar-lein (neu gyfuniad o'r ddau).

F4. Gall unrhyw aelod llawn neu aelod myfyriwr mewn budd sydd fel arfer yn byw yn y wlad neu'r rhanbarth perthnasol fynychu a phleidleisio mewn Cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol.

*Cyfarfodydd Cyffredinol*

F5. Gall y Cyngor alw Cyfarfodydd Cyffredinol ar ddiwrnod(diwrnodau), ac mewn unrhyw leoliad, y mae aelodau'n bresennol ynddo.

F6. Bydd y Cyngor yn penderfynu a fydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu mynychu wyneb yn wyneb neu ar-lein (neu gyfuniad o'r ddau).

F7. Gall unrhyw aelod llawn neu aelod myfyriwr mewn budd fynychu Cyfarfod Cyffredinol.

## G. Cymorth Cyfreithiol

*Ceisiadau*

G1. Gall aelod mewn budd wneud cais am gymorth cyfreithiol gan yr Undeb mewn unrhyw anghydfod sy'n gysylltiedig â'i gyflogaeth.

G2. Ym mhob achos, mae gan y Cyngor ddisgresiwn llwyr i ganiatáu, parhau neu dynnu cymorth cyfreithiol yn ôl.

G3. Gall cymorth cyfreithiol gynnwys cyngor a/neu gynrychiolaeth.

G4. Dylid gwneud ceisiadau am gymorth cyfreithiol i'r Ysgrifennydd Cyffredinol neu'r aelod o staff sydd wedi'i awdurdodi i weithredu fel ei ddirprwy at y dibenion hyn. Bydd rhestr o aelodau staff perthnasol ar gael ar gais. Bydd cais yn cynnwys crynodeb o'r ffeithiau perthnasol.

*Darpariaeth*

G5. Bydd y Cyngor (neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig) yn penderfynu ar hyd a lled unrhyw gymorth cyfreithiol a roddir a sut i'w ddarparu.

G6. Gall y Cyngor (neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig) enwebu cyfreithiwr, bargyfreithiwr, swyddog Undeb, gweithiwr neu unrhyw berson arall y mae'n ei ystyried yn briodol i ddarparu cymorth cyfreithiol.

G7. Ni ddarperir cymorth cyfreithiol ar gyfer unrhyw gŷyn neu hawliad yn erbyn:

(1) yr Undeb; neu

(2) unrhyw un o swyddogion neu gyflogeion yr Undeb neu aelod arall, oni bai bod personau o'r fath yn gweithredu mewn swyddogaeth perchennog, rheolwr, asiant neu swyddogaeth debyg.

*Amodau*

G8. Os rhoddir cymorth cyfreithiol i aelod bydd yn rhaid iddo/iddi, am y cyfnod perthnasol:

(1) ddarparu datgeliad llawn a gonest o'r holl ffeithiau perthnasol; a

(2) dilyn cyngor yr Undeb neu ei gyfreithwyr penodedig.

*Indemniad*

G9. Pan fo'r cymorth cyfreithiol a roddir yn cynnwys cynrychiolaeth gan gyfreithiwr a/neu gwnsler a gyfarwyddir gan yr Undeb, bydd y Cyngor yn indemnio'r aelod mewn perthynas â'r holl gostau cyfreithiol, ffioedd a threuliau y mae wedi'u hawdurdodi hyd at y dyddiad y tynnir cymorth cyfreithiol yn ôl.

G10. Ni fydd yr indemniad yn Rheol G9 yn berthnasol os yw aelod:

(1) yn torri Rheol G8; neu

(2) yn darparu gwybodaeth anwir neu anghyflawn yn fwriadol.

G11. Os yw Rheol G10 yn berthnasol, bydd yr aelod yn atebol i dalu costau llawn yr hawliad, ac ad-dalu'r Undeb yr holl dreuliau y gall fod wedi'u hysgwyddo.

## H. Dirprwyon

*Penodi*

H1. Ym mhob cwmni neu gynhyrchiad, gall aelodau ethol un neu fwy o aelodau eraill i weithredu fel Dirprwy.

H2. Os na fydd etholiad o'r fath, a gyda chaniatâd y cwmni neu'r cynhyrchiad, gall y Cyngor benodi Dirprwyon.

*Awdurdod*

H3. Bydd dirprwyon yn cael tystysgrif awdurdod gan yr Undeb yn caniatáu iddynt:

(1) archwilio cardiau aelodaeth;

(2) bod ym meddiant ac archwilio rhestrau cast; a

(3) chynnal a hwyluso cyswllt rhwng aelodau a'r Undeb ar ran yr Undeb.

H4. Gellir tynnu'r caniatâd yn Rheol H3 yn ôl, ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm, drwy bleidlais fwyafrifol o'r aelodau sydd â budd yn y cwmni neu'r cynhyrchiad neu gan y Cyngor. Os bydd y Cyngor yn hysbysu Dirprwy ei fod yn tynnu'r ddirprwyaeth ôl, bydd yr aelod yn peidio â gweithredu fel Dirprwy ar unwaith.

H5. Nid oes dim yn y Rheolau hyn sy'n awdurdodi Dirprwy i drafod yn uniongyrchol â'r cyflogwr, ymgysylltydd neu unrhyw unigolyn neu gorff arall ar ran yr Undeb.

## I. Cwynion

I1. Bydd gan yr Undeb weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion aelodau.

I2. Bydd y weithdrefn, y gall y Cyngor ei diwygio o bryd i'w gilydd, ar gael ar wefan yr Undeb ac ar gais.

## J. Y Cyngor

*Awdurdod*

J1. Y Cyngor yw corff llywodraethu a phrif bwyllgor gweithredol yr Undeb.

*Aelodau'r Cyngor*

J2. Bydd y Cyngor yn cynnwys 35 o aelodau gan gynnwys y Llywydd.*

J3. Bydd y 35 aelod yn cynrychioli'r arbenigeddau a'r ardaloedd daearyddol canlynol*:

**Gweler tudalen 74 ynglŷn â: Rheolau J2 i J4.*

| *Arbenigedd/Ardal Ddaearyddol* | *Nifer Aelodau'r Cyngor* |
| --- | --- |
| Cyffredinol | 12 |
| Artistiaid Sain | 1 |
| Dawnswyr | 1 |
| Aelodau B/byddar ac Anabl | 1 |
| LHDT+ | 1 |
| Cydraddoldeb Hiliol | 1 |
| Cantorion | 1 |
| Rheoli Llwyfan | 1 |
| Cynllunwyr Theatr | 1 |
| Cyfarwyddwyr Theatr | 1 |
| Adloniant Ysgafn, Syrcas a Diddanwyr | 4 |
| Menywod | 1 |
| Aelodau Ifanc | 1 |
| Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr (ac eithrio Llundain) | 1 |
| Canolbarth Lloegr | 1 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog a Glannau Humber | 1 |
| Gogledd Iwerddon | 1 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 1 |
| Yr Alban | 1 |
| De-orllewin Lloegr | 1 |
| Cymru | 1 |

*Cymhwystra*

J4. Bydd y 35 aelod yn cael eu hethol bob dwy flynedd drwy bleidlais Undeb llawn.*

J5. Bydd pob ymgeisydd ar gyfer etholiad yn aelod mewn budd ar y dyddiad y mae'r enwebiadau'n agor ac yn cael ei gynnig a'i eilio gan bum aelod mewn bydd arall.

J6. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll am fwy nag un sedd Cyngor ac eithrio y gall ymgeisydd hefyd sefyll am swydd Llywydd, ac os felly bydd Rheol M6 yn berthnasol.

J7. Bydd ymgeiswyr sy'n cynrychioli ardal ddaearyddol fel arfer yn byw yn yr ardal honno.

J8. Bydd ymgeiswyr sy'n cynrychioli arbenigaeth wedi gweithio yn yr arbenigedd hwnnw.

J9. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y sedd cydraddoldeb hiliol yn hunan-ddiffinio fel Du neu'n perthyn i grŵp sy'n wynebu gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol neu dreftadaeth ac sydd wedi gweithio yn un o'r meysydd gwaith yn Rheol D1.

J10. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y sedd sy'n cynrychioli aelodau B/byddar ac Anabl yn hunan-ddiffinio fel B/byddar a/neu Anabl ac wedi gweithio yn un o'r meysydd gwaith yn Rheol D1.

**Gweler tudalen 74 parthed Rheolau J2 i J4.*

J11. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y sedd sy'n cynrychioli aelodau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol + yn hunan-ddiffinio fel LHDT+ ac wedi gweithio yn un o'r meysydd gwaith yn Rheol D1.

J12. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y sedd sy'n cynrychioli aelodau Benywaidd yn hunan-ddiffinio fel menywod ac wedi gweithio yn un o'r meysydd gwaith yn Rheol D1.

J13. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y sedd sy'n cynrychioli aelodau ifanc o dan 31 oed pan ddaw'r enwebiadau i ben ac wedi gweithio yn un o'r meysydd gwaith yn Rheol D1.

J14. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ar gyfer seddi Cyngor, ac eithrio ar gyfer seddi Cyffredinol ac ardal ddaearyddol, gyflwyno tystiolaeth o waith sy'n foddhaol i'r Cyngor. Bydd yr holl waith y dibynnir arno wedi digwydd yn y tair blynedd cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau.

J15. Efallai y bydd hi'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr yn Rheolau J8 i J13 fodloni trothwy enillion a benderfynir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

J16. Bydd gan o leiaf dri o gynigwyr yr ymgeiswyr yn Rheolau J7 i J13 gymwysterau tebyg.

J17. Nid yw aelod sy'n perthyn i unrhyw un o'r grwpiau isod yn gymwys i sefyll mewn etholiad:

(1) aelod o gymdeithas rheolwyr neu ymgysylltwyr/cyflogwyr y mae'r Undeb yn negodi neu'n ceisio negodi â hi;

(2) cyflogai (lefel rheolwr) cymdeithas yn Rheol J17(1);

(3) rheolwr neu ymgysylltwr/cyflogwr aelodau sy'n gweithio yn unrhyw un o'r meysydd yn Rheol D1;

(4) asiant neu drefnydd taledig ar gyfer aelodau eraill; neu

(5) berson sydd wedi cael ei gyflogi gan yr Undeb yn ystod y pum mlynedd cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau.

J18. Bydd aelod o'r Cyngor sy'n ymgymryd ag unrhyw aelodaeth, cyflogaeth neu weithgaredd sy'n dod o dan Reol J17 yn ymddiswyddo ar unwaith.

J19. Ni fydd Rheol J17 yn berthnasol i aelodau sydd yn:

(1) llwyr gyfrifol am benodiadau castio neu gynhyrchu ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â thrafodaethau sy'n ymwneud â'r Undeb yn y rolau hynny ac nad ydynt yn derbyn unrhyw gomisiwn gan yr aelodau neu'r cyflogwr dan sylw;

(2) dal swyddi di-dâl heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â thrafodaethau sy'n ymwneud â'r Undeb;

(3) cynrychiolwyr etholedig o gwmnïau gweithredu democrataidd neu gydweithredol; neu'n

(4) ymgysylltu ag aelodau eraill i ddarparu cymorth personol neu i gefnogi eu hact.

*Etholiadau'r Cyngor*

J20. O leiaf dri mis cyn dyddiad agor yr enwebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r amserlen sy'n nodi:

(1) y dyddiadau y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol dderbyn enwebiadau;

(2) y dyddiad yr anfonir papurau pleidleisio gyntaf at yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio;

(3) y dyddiad ar gyfer dychwelyd papurau pleidleisio wedi'u llenwi;

(4) y dyddiad y cyhoeddir y canlyniadau.

J21. Dylai enwebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gan ddefnyddio ffurflen enwebu'r Undeb.

J22. Bydd gan bob aelod mewn budd bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae enwebiadau'n agor yr hawl i bleidleisio. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfonir papurau pleidleisio at bob aelod sydd â hawl i bleidleisio yn eu cyfeiriad sydd wedi'i nodi yng nghofnodion yr Undeb.

J23. Gall aelodau bleidleisio dros un ymgeisydd ar gyfer pob un o'r 35 sedd yn Rheol J3.

J24. Bydd yr ymgeisydd sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer sedd Cyngor gydag un lle yn unig (e.e. Artistiaid Sain) yn cael ei ethol.

J25. Bydd y 12 ymgeisydd sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer y 12 sedd Gyffredinol yn cael eu hethol, oni bai bod y Llywydd yn cymryd y deuddegfed sedd yn unol â Rheol M6, ac os felly bydd yr 11 ymgeisydd sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

J26. Bydd y pedwar ymgeisydd sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer y seddi Amrywiaeth, Syrcas a Diddanwyr yn cael eu hethol.

J27. Gall pob ymgeisydd gyflwyno anerchiad etholiadol heb fod yn fwy na 150 gair. Bydd yr anerchiadau yn cael eu cynnwys gyda'r papurau pleidleisio. Gall y Cyngor benderfynu a all ffotograffau a deunydd arall nad ydynt mewn geiriau gael eu cynnwys yn yr anerchiad etholiadol o bryd i'w gilydd.

J28. Bydd papurau pleidleisio wedi'i llenwi sydd ddim yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau sy'n dod gyda'r papur ac fel y nodir yn y Rheolau hyn yn cael eu hanghymhwyso.

J29. Bydd papurau pleidleisio sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn Rheol J20(3) yn cael eu hanghymhwyso.

*Tymor Swydd a Chyfarfodydd*

J30. Tymor swydd y Cyngor fydd y cyfnod o ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cyngor yn union ar ôl etholiad y Cyngor hyd at ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cyngor yn union ar ôl etholiad y Cyngor ddwy flynedd yn ddiweddarach.

J31. Cynhelir cyfarfod cyntaf Cyngor newydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yn Rheol J20(4). Y Cyngor yn unig fydd yn gyfrifol am alw holl gyfarfodydd pellach y Cyngor.

J32. Mae cyfarfod Cyngor yn ddilys os oes o leiaf 10 aelod o'r Cyngor yn bresennol. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath wyneb yn wyneb neu ar-lein (neu gyfuniad o'r ddau), fel y bydd y Cyngor yn penderfynu.

J33. Os daw sedd Cyngor yn wag am unrhyw reswm, cynhelir etholiad i lenwi'r sedd wag cyn gynted ag sy'n ymarferol. Ni fydd hyn yn berthnasol os bydd y swydd yn dod yn wag o fewn tri mis i'r dyddiad agor ar gyfer enwebiadau ar gyfer y Cyngor newydd.

J34. Gall aelod o'r Cyngor sy'n bodloni'r gofynion cymhwystra y darperir ar eu cyfer yn y Rheolau hyn sefyll i'w ailethol.

*Pwerau'r Cyngor*

J35. Bydd gan y Cyngor (neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn gweithredu ar ei ran) awdurdod llawn i weithredu ar ran yr Undeb ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Undeb.

J36. Gall y Cyngor gymryd unrhyw gamau sy'n gyson â'r Rheolau hyn ac y mae'n ystyried sy'n hyrwyddo buddiannau'r Undeb a'i aelodau gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

(1) sefydlu a chynnal swyddfeydd, canghennau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau;

(2) galw cyfarfodydd o'r Undeb yn unrhyw un o wledydd a rhanbarthau'r DU;

(3) cyflogi neu ddiswyddo unrhyw staff a all fod yn ofynnol i gynnal busnes yr Undeb; ac

(4) awdurdodi cynnal trafodaethau.

J37. Bydd y Cyngor yn ethol yr Is-lywyddion a'r Trysorydd Anrhydeddus yn unol â'r Rheolau hyn.

J38. Bydd y Cyngor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau a chynigion gan ganghennau a phwyllgorau'r Undeb.

J39. Gall y Cyngor benodi cyfreithwyr i weithredu ar ran yr Undeb fel y gwêl yn briodol a gall gymryd camau cyfreithiol os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

J40. Bydd y Cyngor yn cymeradwyo cyllideb flynyddol yr Undeb ac yn rheoli gwariant yr Undeb mewn cydweithrediad â'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

J41. Bydd y Cyngor yn awdurdodi'r Ysgrifennydd Cyffredinol i bennu cyflog staff a thelerau ac amodau eraill.

J42. O dan ei bwerau cyffredinol yn Rheolau J35 a J36, bydd y Cyngor yn penderfynu ar unrhyw faterion Undeb pan fo'r Rheolau hyn yn dawel, ar yr amod y bydd bob amser yn gweithredu er budd gorau'r Undeb.

J43. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch ystyr, y Cyngor fydd yn gyfrifol am ddehongli'r Rheolau hyn.

*Pwyllgorau a'r Cyngor*

J44. Diben pwyllgorau'r Undeb yw:

(1) cynrychioli'r aelodau hynny sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r pwyllgor yn ei gynrychioli;

(2) cynghori'r Cyngor fel y bo'n briodol; a

(3) chymryd unrhyw gamau y mae'r Cyngor neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn eu cymeradwyo.

*Rheolau Sefydlog*

J45. Bydd y Cyngor yn gwneud ac yn diwygio o bryd i'w gilydd yr holl Reolau Sefydlog ar gyfer cynadleddau, cyfarfodydd, pwyllgorau a changhennau'r Undeb. Bydd Rheolau Sefydlog o'r fath yn nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau a fydd yn berthnasol. Bydd y Rheolau Sefydlog ar gael yn rhwydd i'r aelodau.

## K. Ymddiriedolwyr

*Penodi*

K1. Bydd y Cyngor yn ethol (drwy bleidlais o'r Cyngor llawn) ac yn penodi'n ysgrifenedig dim llai na thri a hyd at chwe aelod o'r Undeb i fod yn Ymddiriedolwyr yr Undeb.

K2. Bydd Ymddiriedolwr yn aros yn ei swydd hyd at farwolaeth, ymddiswyddiad, gwaharddiad neu ddiswyddiad gan y Cyngor.

K3. Gwneir penderfyniadau ar gyfer ymddiriedolwyr drwy bleidlais fwyafrif syml.

*Dyletswyddau*

K4. Bydd holl eiddo'r Undeb yn cael ei freinio yn enwau'r Ymddiriedolwyr.

K5. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn:

(1) ufuddhau i holl gyfarwyddiadau cyfreithlon y Cyngor;

(2) llofnodi pob dogfen a gwneud pob gweithred a pheth a all fod yn angenrheidiol i gyflawni cyfarwyddiadau'r Cyngor;

(3) buddsoddi unrhyw gronfeydd yr Undeb sydd ar gael i'w buddsoddi mewn cyfranddaliadau, stoc, cronfeydd, gwarantau, tir, adeiladau, eiddo neu fuddsoddiadau eraill neu eiddo o dan gyfarwyddyd y Cyngor;

(4) trosglwyddo unrhyw arian neu eiddo arall yr Undeb dan gyfarwyddyd y Cyngor; a

(5) pheidio â gwerthu, trosglwyddo na delio fel arall ag eiddo'r Undeb mewn unrhyw fodd ac eithrio o dan gyfarwyddyd y Cyngor.

K6. Gall yr Ymddiriedolwyr, gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cyngor, neu os cyfarwyddir hwy gan y Cyngor, ddirprwyo i unrhyw berson neu Gwmni y pwerau a roddir iddynt o dan y Rheolau hyn.

## L. Swyddogion Etholedig

L1. Swyddogion yr Undeb yw ei Lywydd, dau Is-lywydd, Trysorydd Anrhydeddus ac Ysgrifennydd Cyffredinol.

L2. Heblaw am gyfarfodydd Pwyllgorau Disgyblu ac Apeliadau'r Undeb, mae gan Swyddogion yr hawl i fynychu holl gyfarfodydd yr Undeb.

---

## M. Llywydd

*Tymor*

M1. Etholir y Llywydd bob dwy flynedd drwy bleidlais lawn o'r Undeb ar yr un pryd ag y caiff y Cyngor ei ethol.

M2. Oni chaiff ei ailethol, bydd tymor swydd y Llywydd yn ddwy flynedd, yn dechrau o ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cyngor yn union ar ôl etholiad y Llywydd, ac yn dod i ben ar ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cyngor yn union ar ôl etholiad y Llywydd nesaf ddwy flynedd yn ddiweddarach.

M3. Os daw swydd y Llywydd yn wag (am unrhyw reswm) gydag o leiaf dri mis o'r tymor yn weddill, cynhelir etholiad pellach ar gyfer Llywydd.

*Ymgeiswyr*

M4. Bydd ymgeiswyr ar gyfer Llywydd wedi bod yn aelodau mewn budd am bedair blynedd yn olynol ar y dyddiad y mae enwebiadau'n agor, ac wedi'u henwebu gan o leiaf 50 o aelodau eraill mewn budd gan ddefnyddio ffurflen enwebu'r Undeb.

M5. Nid yw aelodau sydd wedi cael eu cyflogi gan yr Undeb yn ystod y pum mlynedd cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yn gymwys i sefyll etholiad.

M6. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y Llywydd hefyd yn sefyll am un o seddi'r Cyngor yn J3. Os byddant yn llwyddiannus yn y ddau etholiad, byddant yn eistedd ar y Cyngor fel Llywydd a chynghorydd ar gyfer eu dewis sedd. Os byddant yn llwyddiannus yn eu hetholiad fel Llywydd yn unig, byddant yn eistedd ar y Cyngor fel Llywydd a chynghorydd ar gyfer un o'r 12 sedd Gyffredinol (gan gymryd y deuddegfed safle yn awtomatig).

*Etholiadau*

M7. Bydd yr amserlen ar gyfer ethol y Llywydd yr un fath â'r amserlen ar gyfer etholiadau'r Cyngor a bydd Rheol J20 yn berthnasol.

M8. Bydd gan bob aelod mewn budd bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae enwebiadau'n agor yr hawl i bleidleisio. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfonir papurau pleidleisio at bob aelod sydd â hawl i bleidleisio yn eu cyfeiriad sydd wedi'i nodi yng nghofnodion yr Undeb.

M9. Bydd gan bob aelod un bleidlais. Bydd yr ymgeisydd sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer Llywydd yn cael ei ethol.

M10. Caiff pob ymgeisydd gyflwyno anerchiad etholiadol heb fod yn fwy na 250 gair. Bydd yr Undeb yn anfon yr anerchiadau hyn gyda'r papurau pleidleisio at bob aelod sydd â hawl i bleidleisio. Gall y Cyngor benderfynu a all ffotograffau a deunydd arall nad ydynt mewn geiriau gael eu cynnwys yn yr anerchiad etholiadol o bryd i'w gilydd.

M11. Bydd papurau pleidleisio sydd ddim yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau sy'n dod gyda'r papur a'r Rheolau hyn yn cael eu hanghymhwyso.

M12. Bydd papurau pleidleisio sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn Rheol J20(3) yn cael eu hanghymhwyso.

*Dyletswyddau*

M13. Y Llywydd fydd yn cadeirio pob cyfarfod a chynhadledd pan fydd yn bresennol.

M14. Mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor a chynadleddau Undeb, os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan y Llywydd (neu'r Is-lywydd neu'r Trysorydd Anrhydeddus os yw'n llywyddu yn lle'r Llywydd) y bleidlais fwrw yn ogystal â'i bleidlais fel cynghorydd.

M15. Bydd y Llywydd yn cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r Rheolau hyn, polisïau'r Undeb a'r cyfarwyddiadau a roddir gan y Cyngor.

M16. Bydd y Llywydd yn cynrychioli'r Undeb lle bo'n briodol ac yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a benderfynir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

M17. Caiff y Llywydd ddirprwyo ei ddyletswyddau i'r naill neu'r llall o'r Is-lywyddion.

## N. Is-lywyddion

*Etholiadau*

N1. Bydd gan yr Undeb ddau Is-lywydd a gaiff eu hethol o'r Cyngor gan y Cyngor ar ddechrau ei dymor.

N2. Oni bai bod Is-lywydd yn cael ei ailethol, bydd tymor swydd yr Is-lywyddion yn ddwy flynedd.

N3. Os daw swydd yr Is-lywydd yn wag (am unrhyw reswm) gydag o leiaf dri mis o'r tymor yn weddill, bydd y Cyngor yn ethol cynghorydd arall i ddal y swydd.

*Dyletswyddau*

N4. Bydd y naill neu'r llall o'r Is-lywyddion yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor a chynadleddau'r Undeb yn absenoldeb y Llywydd.

N5. Bydd yr Is-lywyddion yn cynrychioli'r Undeb lle bo'n briodol ac yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a benderfynir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

N6. Bydd yr Is-lywyddion yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r Rheolau hyn, polisïau'r Undeb a'r cyfarwyddiadau a roddir gan y Cyngor.

## O. Trysorydd Anrhydeddus

*Etholiadau*

O1. Bydd gan yr Undeb Drysorydd Anrhydeddus a etholir o'r Cyngor gan y Cyngor ar ddechrau ei dymor.

O2. Oni chaiff ei ailethol, bydd tymor swydd y Trysorydd Anrhydeddus yn ddwy flynedd.

O3. Bydd y Trysorydd Anrhydeddus yn rhoi dim llai na thri mis o rybudd o ymddiswyddiad. Ar ôl derbyn hysbysiad o'r fath, bydd y Cyngor yn ethol cynghorydd arall a fydd yn dechrau yn y swydd o'r dyddiad y daw'r rhybudd i ben.

O4. Os daw swydd y Trysorydd Anrhydeddus yn wag (am unrhyw reswm heblaw am ymddiswyddiad ar rybudd) bydd y Cyngor yn ethol Trysorydd Anrhydeddus newydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd y Llywydd yn gweithredu fel Trysorydd Anrhydeddus interim yn ystod cyfnod unrhyw swydd wag.

*Dyletswyddau*

O5. Bydd y Trysorydd Anrhydeddus:

(1) yn cyflwyno'r datganiad cyfrifon blynyddol i Gynhadledd Equity, os yw'n bresennol;

(2) â'r hawl i archwilio cofnodion ariannol yr Undeb i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau hyn;

(3) yn cynorthwyo'r archwilwyr os oes angen hynny arnynt;

(4) yn archwilio'r cyfrifon blynyddol ac yn eu cadarnhau i'r Cyngor eu cymeradwyo;

(5) yn cyflwyno cyllideb flynyddol ddrafft i'r Cyngor ei chymeradwyo;

(6) yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor a chynadleddau'r Undeb yn absenoldeb y Llywydd a'r Is-lywyddion;

(7) yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a benderfynir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd; ac

(8) yn cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r Rheolau hyn, polisïau'r Undeb a'r cyfarwyddiadau a roddir gan y Cyngor.

## P. Ysgrifennydd Cyffredinol

*Tymor*

P1. Caiff yr Ysgrifennydd Cyffredinol ei ethol drwy bleidlais lawn o'r Undeb a bydd yn parhau yn ei swydd am bum mlynedd neu tan:

(1) ddiwedd tri mis o rybudd o ymddiswyddiad a roddwyd yn ysgrifenedig i'r Llywydd;

(2) y bydd yn cael ei symud o'r swydd; neu

(3) farwolaeth neu ymddeoliad.

P2. Gall y Cyngor ethol cynghorydd neu aelod o staff i weithredu fel Ysgrifennydd Cyffredinol dros dro os daw swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn wag (am unrhyw reswm).

*Cymhwystra*

P3. Gall unrhyw aelod mewn budd sydd wedi bod yn aelod mewn budd am ddim llai na phum mlynedd yn olynol, yn union cyn ei enwebu, sefyll etholiad os caiff ei enwebu gan o leiaf 50 o aelodau mewn budd eraill gan ddefnyddio ffurflen enwebu'r Undeb.

P4. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn enwebu ymgeisydd i sefyll etholiad (cyfeirir ato fel Enwebai'r Cyngor).

P5. Cyn ei enwebu yn Rheol P4 uchod, bydd y Cyngor yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cyffredinol presennol a yw'n dymuno cael ei enwebu am dymor pellach yn y swydd. Os felly, yr Ysgrifennydd Cyffredinol fydd Enwebai'r Cyngor oni bai bod y Cyngor wedi terfynu'n gyfreithlon (neu wedi rhoi rhybudd i derfynu) gontract yr Ysgrifennydd Cyffredinol neu wedi dechrau'r weithdrefn ddisgyblu yn Rheol P24.

P6. Os bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol presennol yn cadarnhau nad yw'n dymuno cael ei enwebu am dymor pellach, bydd y Cyngor yn penderfynu ar Enwebai'r Cyngor drwy bleidlais fwyafrif gan y Cyngor llawn. Gall Enwebai'r Cyngor fod yn aelod, ddim yn aelod, yn gyflogai neu'n unrhyw berson arall.

P7. Nid yw aelod sydd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd o'r Undeb o dan Reolau disgyblu'r Undeb ar adeg yr enwebiad yn gymwys i sefyll etholiad.

P8. Bydd swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cael ei hysbysebu yn y cyfryw le(oedd) y bydd y Cyngor yn penderfynu arno. Bydd yr hysbysebion yn cynnwys manylion y prif delerau cyflogaeth.

P9. Cyn i'r Undeb gadarnhau enwebiadau, bydd enwebeion yn cadarnhau'n ysgrifenedig eu caniatâd i gael eu henwebu a'u cytundeb, os cânt eu hethol, i delerau ac amodau cyflogaeth a bennir gan y Cyngor.

*Etholiadau*

P10. O leiaf dri mis cyn dyddiad agor yr enwebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r amserlen sy'n nodi:

(1) y dyddiadau y mae'n rhaid derbyn enwebiadau rhyngddynt;

(2) y dyddiad yr anfonir papurau pleidleisio gyntaf at yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio;

(3) y dyddiad y mae'n rhaid dychwelyd papurau pleidleisio wedi'u llenwi;

(4) y dyddiad y cyhoeddir y canlyniad.

P11. Bydd gan bob aelod mewn budd bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae enwebiadau'n agor yr hawl i bleidleisio. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfonir papurau pleidleisio at bob aelod sydd â hawl i bleidleisio yn eu cyfeiriad sydd wedi'i nodi yng nghofnodion yr Undeb.

P12. Bydd y papurau pleidleisio yn cynnwys rhestr o'r ymgeiswyr a enwebwyd a hyd at 50 o'u henwebwyr unigol ac Enwebai'r Cyngor. Gall ymgeiswyr a enwebir ddewis enwau'r enwebwyr unigol i'w cynnwys, os yw'n fwy na 50. Gall Enwebai'r Cyngor hefyd gael ei enwebu gan aelodau unigol yn unol â Rheol P3 (gan gynnwys cynghorwyr unigol) y bydd eu henwau hefyd yn cael eu cynnwys gyda'r papurau pleidleisio.

P13. Bydd gan bob aelod un bleidlais. Bydd yr ymgeisydd sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau ar gyfer swydd Ysgrifennydd Cyffredinol yn cael ei ethol.

P14. Caiff pob ymgeisydd gyflwyno anerchiad etholiadol heb fod yn fwy na 250 gair. Bydd yr Undeb yn anfon yr anerchiadau hyn gyda'r papurau pleidleisio at bob aelod sydd â hawl i bleidleisio. Gall y Cyngor benderfynu a all ffotograffau a deunydd arall nad ydynt mewn geiriau gael eu cynnwys yn yr anerchiad etholiadol o bryd i'w gilydd.

P15. Bydd papurau pleidleisio sydd ddim yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau sy'n dod gyda'r papur a gyda'r Rheolau hyn yn cael eu hanghymhwyso.

P16. Bydd papurau pleidleisio sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn Rheol P10(3) yn cael eu hanghymhwyso.

P17. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, ni fydd rhaid cynnal pleidlais.

*Dyletswyddau*

P18. Yr Ysgrifennydd Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol yr Undeb a bydd yn atebol i'r Cyngor.

P19. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn derbyn cyflog ac yn cael ei gyflogi dan delerau ac amodau cyflogaeth a bennir gan y Cyngor.

P20. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor a chynadleddau'r Undeb ond ni fydd ganddo/ganddi bleidlais.

P21. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y cyfarwyddir gan y Cyngor ac yn unol â pholisïau'r Undeb a'r Rheolau hyn.

P22. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, dan awdurdod y Cyngor, yn gyfrifol am weinyddiad effeithlon a rheolaeth ariannol yr Undeb, a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(1) gynghori ar a gweithredu polisi a phenderfyniadau eraill y Cyngor;

(2) gweithredu fel prif lefarydd yr Undeb;

(3) rheoli holl swyddfeydd a staff yr Undeb;

(4) sicrhau bod holl benderfyniadau'r Cyngor yn cael eu cofnodi'n gywir;

(5) negodi gyda chyflogwyr, llywodraethau, a sefydliadau eraill er budd aelodau;

(6) galw cyfarfodydd;

(7) paratoi cyllideb flynyddol yr Undeb mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd Anrhydeddus; a

(8) pharatoi a chyflwyno adroddiad blynyddol y Cyngor i Gynhadledd Equity.

P23. Gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddirprwyo ei ddyletswyddau os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud hynny.

P24. Gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol fod yn destun camau disgyblu gan y Cyngor, gan gynnwys atal dros dro a/neu ddiswyddo o'i swydd, os yw'n:

(1) methu â chyflawni ei ddyletswyddau;

(2) camymddwyn yn ddifrifol; neu'n

(3) dwyn anfri ar yr Undeb,

o dan y cyfryw drefn ddisgyblu y bydd y Cyngor yn penderfynu arni o bryd i'w gilydd.

## Q. Cyllid

*Blwyddyn Ariannol*

Q1. Bydd blwyddyn ariannol yr Undeb rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr.

Q2. Bydd y Cyngor yn penodi archwilydd proffesiynol i archwilio cyfrifon yr Undeb ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

*Cofnodion Cyfrifo*

Q3. Bydd yr Undeb yn cadw cofnodion cyfrifyddu o'i drafodion, asedau a rhwymedigaethau yn ei swyddfa gofrestredig.

Q4. Mae gan unrhyw aelod yr hawl i archwilio'r cofnodion cyfrifyddu yn unol â deddfwriaeth.

*Cronfeydd yr Undeb*

Q5. Bydd yr Undeb yn defnyddio ei gronfeydd i gefnogi a hyrwyddo ei Nodau.

Q6. Bydd yr holl drafodion ariannol a wneir ar ran yr Undeb yn cael eu hawdurdodi gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor.

Q7. Bydd arian yr Undeb sydd ar gael i'w fuddsoddi yn cael ei fuddsoddi gan yr Ymddiriedolwyr o dan gyfarwyddyd y Cyngor mewn buddsoddiadau ar gyfer yr amser a awdurdodir gan y gyfraith.

Q8. Bydd cyfrifon yn enw'r Undeb yn cael eu cadw mewn banc(iau) y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

*Benthyciadau*

Q9. Gall y Cyngor awdurdodi'r Ymddiriedolwyr i fenthyg arian, p'un a yw wedi'i warantu drwy forgais ai peidio yn erbyn unrhyw un o eiddo'r Undeb.

*Gwariant Gweinyddol*

Q10. Gall y Trysorydd Anrhydeddus awdurdodi staff dynodedig yr Undeb i agor a defnyddio cyfrif(on) i dalu treuliau, costau teithio, cynhaliaeth a gwariant gweinyddol arall o'r fath.

## R. Archwilydd Annibynnol

*Penodi*

R1. Bydd y Cyngor yn penodi Archwilydd Annibynnol i oruchwylio'r holl etholiadau gweithredol ac unrhyw bleidlais ar weithredu diwydiannol.

R2. Bydd y Cyngor yn penodi Archwilydd Annibynnol i oruchwylio unrhyw Refferendwm.

*Rôl*

R3. Rôl yr Archwilydd Annibynnol yw:

(1) sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith undebau llafur berthnasol;

(2) paratoi ac anfon papurau pleidleisio;

(3) archwilio a chyfrif papurau pleidleisio;

(4) cofnodi ac adrodd ar y pleidleisiau;

(5) cadw cyfrinachedd y broses bleidleisio; ac

(6) ymdrin â diogelwch, storio a dinistrio papurau pleidleisio yn ddiogel.

## S. Camau Disgyblu

*Perthnasedd*

S1. Mae'r Rheolau disgyblu hyn yn berthnasol i bob aelod o'r Undeb, gan gynnwys yr aelodau hynny sy'n eistedd fel aelodau o'r Cyngor. Nid ydynt yn berthnasol i weithwyr yr Undeb, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y bydd gweithdrefnau disgyblu ar wahân yn cael eu gwneud ar eu cyfer gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

*Cyhuddiadau*

S2. Os bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ar ôl ymchwiliad, yn credu bod sail resymol dros feddwl y gallai aelod fod yn euog o drosedd ddisgyblu, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn ystyried a ddylid dwyn cyhuddiadau.

S3. Gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddirprwyo'r ymchwiliad yn Rheol S2 i berson(personau) y bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn teimlo sy'n addas.

S4. Mae aelod yn cyflawni trosedd ddisgyblu at y dibenion hyn os yw'n:

(1) methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reol D14; neu'n

(2) esgeuluso ei ddyletswyddau i'r Undeb.

S5. Os bydd cyhuddiadau i'w dwyn, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Disgyblu.

*Pwyllgor Disgyblu*

S6. Bydd y Pwyllgor Disgyblu yn cynnwys saith cynghorydd a etholir drwy bleidlais gudd o'r Cyngor llawn yn dilyn ei gyfarfod yn Rheol J31. Tymor y Pwyllgor Disgyblu fydd y cyfnod o ddyddiad ei ethol hyd at ddiwedd tymor y Cyngor sy'n ethol.

S7. Bydd y Pwyllgor Disgyblu yn cyflawni ei waith yn unol â'r Rheolau hyn a'r cyfryw weithdrefnau y bydd y Cyngor yn eu llunio neu'n eu diwygio o bryd i'w gilydd. Bydd yn cael ei gefnogi gan aelod o staff Equity, y cyfeirir atynt (I have changed the language here to be gender neutral as not all our members identify as male/female?) fel yr Ysgrifennydd.

S8. Os cyfeirir cyhuddiad i'r Pwyllgor Disgyblu yn unol â Rheol S5, bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â'r Pwyllgor Disgyblu i ffurfio panel o dri o'i aelodau i wrando ar y cyhuddiad. Bydd y panel yn enwebu un o'i aelodau i weithredu fel ei Gadeirydd.

*Cosbau*

S9. Os bydd y Pwyllgor Disgyblu yn cefnogi cyhuddiad disgyblu yn erbyn aelod, gall osod y cosbau canlynol:

(1) diarddel o'r Undeb, ac os felly bydd unrhyw danysgrifiadau neu daliadau eraill a dalwyd hyd at y dyddiad hwnnw yn cael eu fforffedu;

(2) atal dros dro o'r Undeb am ba bynnag gyfnod y mae'n ei ystyried yn briodol;

(3) atal dros dro holl fuddion neu hawliau aelodaeth Undeb am ba bynnag gyfnod y mae'n ei ystyried yn briodol;

(4) diswyddo, atal dros dro neu wahardd o'r cyfan neu o unrhyw swydd, ymddiriedolaeth, cangen neu bwyllgor o'r Undeb am ba bynnag gyfnod y mae'n ei ystyried yn briodol;

(5) talu dirwy heb fod yn fwy na dwy flynedd o danysgrifiadau yn ôl cyfradd yr aelod;

(6) rhoi cerydd neu rybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r aelod;

(7) atal yr aelod rhag bod yn bresennol ym mhob un neu rai o bwyllgorau, canghennau, cyfarfodydd neu gynadleddau'r Undeb am ba bynnag gyfnod y mae'n ei ystyried yn briodol; neu

(8) cyfuniad o'r uchod.

*Atal Dros Dro*

S10. Unwaith y bydd cyhuddiad wedi'i gyfeirio i'r Pwyllgor Disgyblu gall, ar unrhyw adeg cyn iddo benderfynu ar y cyhuddiad, atal dros dro aelod o'i aelodaeth a/neu rhag dal unrhyw swydd neu swydd o fewn yr Undeb, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

*Apeliadau*

S11. Gall aelod apelio yn erbyn y penderfyniad i gefnogi'r cyhuddiadau yn ei erbyn a/neu unrhyw gosb a roddwyd.

S12. Bydd apêl yn ysgrifenedig ac yn datgan sail yr apêl. Caiff ei hanfon at yr Ysgrifennydd Cyffredinol o fewn 14 diwrnod ar ôl i'r aelod gael gwybod am y penderfyniad gan y Pwyllgor Disgyblu. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyfeirio'r apêl at y Pwyllgor Apeliadau.

S13. Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn gwrando ar yr apêl yn unol â Threfn Apeliadau Disgyblu'r Undeb, y bydd y Cyngor yn ei gwneud neu'n ei diwygio o bryd i'w gilydd.

S14. Gall y Pwyllgor Apeliadau gadarnhau neu amrywio penderfyniad a/neu gosb y Pwyllgor Disgyblu ond ni chaiff gynyddu'r gosb a osodir gan y Pwyllgor Disgyblu.

S15. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau yn derfynol ac yn rhwymol.

*Awdurdod Parhaus*

S16. Os bydd y Pwyllgorau Disgyblu neu Apeliadau yn gwrando ar faterion a gyfeirir atynt ar ddiwedd eu tymor, byddant yn parhau i wrando ar y materion hyd nes y cânt eu cwblhau.

## T. Cynnadledd Equity

*Diben*

T1. Bydd yr Undeb yn cynnal cynhadledd bob blwyddyn galendr (a elwir yn Gynhadledd Equity) ar y cyfryw ddyddiadau ac yn y cyfryw le i'w benderfynu gan y Cyngor. Cynhelir Cynhadledd Equity wyneb yn wyneb, ond gellir ei chynnal ar-lein (neu gyfuniad o'r ddau) os yw'r Cyngor yn ystyried nad yw'n rhesymol ymarferol i'w chynnal wyneb yn wyneb.

T2. Bydd cynrychiolwyr o bwyllgorau a changhennau'r Undeb yn Rheol T4 (y Cynrychiolwyr) yn cyfarfod â'r Cyngor yng Nghynhadledd Equity i drafod a phenderfynu ar faterion polisi cyffredinol a/neu unrhyw newidiadau i Reolau.

T3. Bydd Cynhadledd Equity yn derbyn Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.

*Y Cynrychiolwyr*

T4. Y Cynrychiolwyr fydd:

(1) dau aelod o bob un o'r pwyllgorau cenedlaethol;

(2) tri aelod o bob un o'r pwyllgorau diwydiannol;

(3) dau aelod o bob cangen sydd â llai na 1,000 o aelodau;

(4) un aelod pellach fesul 1,000 o aelodau o bob cangen sydd â mwy na 1,000 o aelodau; a

(5) thri aelod o bob un o'r pwyllgorau cydraddoldeb.

T5. Etholir y Cynrychiolwyr yn unol â'r Rheolau Sefydlog y bydd y Cyngor yn eu gwneud o bryd i'w gilydd.

T6. Ni chaiff unrhyw Gynrychiolydd fod yn Gynrychiolydd mewn mwy nag un swyddogaeth.

T7. Mae gan y Cynrychiolwyr hawl i siarad, cynnig neu eilio cynigion a gwelliannau, a phleidleisio. Mae gan bob Cynrychiolydd un bleidlais.

*Cyngor*

T8. Bydd aelodau'r Cyngor yn mynychu Cynhadledd Equity yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau o'r Cyngor.

T9. Mae gan aelodau'r Cyngor hawl i siarad, cynnig neu eilio cynigion a gwelliannau, a phleidleisio.

T10. Mae gan bob aelod o'r Cyngor un bleidlais ac eithrio'r Llywydd (neu yn ei absenoldeb, un o'r Is-lywyddion, neu yn absenoldeb y ddau, y Trysorydd Anrhydeddus) a fydd hefyd â phleidlais fwrw.

*Ymddiriedolwyr*

T11. Gall Ymddiriedolwyr fynychu Cynhadledd Equity a siarad ond ni fydd ganddynt bleidlais (oni bai eu bod hefyd yn aelod o'r Cyngor neu'n Gynrychiolydd).

*Pwyllgor Busnes y Gynhadledd*

T12. Gall Aelodau'r Pwyllgor fynychu Cynhadledd Equity a siarad, ond dim ond ar faterion sydd o fewn cyfrifoldebau'r Pwyllgor ac ni fydd ganddynt bleidlais (oni bai eu bod hefyd yn aelod o'r Cyngor neu'n Gynrychiolydd).

*Aelodau Undeb*

T13. Gall unrhyw aelod mewn budd fynychu Cynhadledd Equity ar ei draul ei hun yn amodol ar gapasiti'r lleoliad a'u bod wedi rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol neu'r aelod o staff sydd wedi'i awdurdodi i weithredu fel ei gynrychiolydd at y dibenion hyn. Ni fydd ganddynt hawl i siarad na phleidleisio.

*Cynigion*

T14. Caiff cynnig ei basio os bydd dwy ran o dair o'r rheini sy'n pleidleisio o blaid ac yn erbyn yn pleidleisio o'i blaid.

T15. Mae cynnig a basiwyd yn rhwymol ar y Cyngor oni bai bod y Cyngor yn arfer ei bŷer i roi'r cynnig i Refferendwm yn unol â Rheol Y1. Os felly, ni fydd y cynnig yn rhwymol oni bai y caiff ei basio gan y Refferendwm.

T16. Os bydd cynnig yn sicrhau pleidlais fwyafrifol ond yn methu â chael mwyafrif o ddwy ran o dair, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyngor yn ystyried pa gamau pellach, os o gwbl, y bydd yn eu cymryd mewn perthynas â'r cynnig ac yn hysbysu'r cynigwyr a'r aelodaeth ehangach am ei benderfyniad a'r rheswm dros y penderfyniad.

T17. Caiff pob un o'r pwyllgorau cydraddoldebau gyflwyno un cynnig i'w drafod.

T18. Caiff pob un o'r pwyllgorau diwydiannol gyflwyno un cynnig i'w drafod.

T19. Gall unrhyw un o'r canghennau a'r pwyllgorau cenedlaethol gyflwyno cynnig/cynigion yng Nghyfarfodydd Rhanbarthol neu Genedlaethol blynyddol aelodau eu gwlad neu ranbarth o:

(1) Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr (ac eithrio Llundain);

(2) Llundain;

(3) Canolbarth Lloegr;

(4) Gogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog, a Glannau Humber;

(5) Gogledd Iwerddon;

(6) Gogledd Orllewin Lloegr;

(7) Yr Alban;

(8) De-orllewin Lloegr;

(9) Cymru.

T20. Bydd pob un o'r cyfarfodydd yn Rheol T19 wedyn yn penderfynu ar un cynnig i'w gyflwyno ar gyfer ei drafod, ac eithrio y gall pob un o gyfarfodydd Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr a Llundain benderfynu ar ddau gynnig i'w cyflwyno.

T21. Ni fydd cynigion o'r fath yn cael eu derbyn:

(1) os nad ydynt yn ymwneud â materion polisi cyffredinol neu newid rheolau;

(2) os ydynt yn cynnig gweithredu sy'n groes i Reolau neu Nodau'r Undeb neu y tu allan i Bwerau'r Undeb; neu

(3) os ydynt dros 250 o eiriau,

a bydd penderfyniad y Cyngor yn hyn o beth yn derfynol ac yn rhwymol.

T22. Mae'r term "polisi cyffredinol" yn golygu polisïau'r Undeb sy'n ymwneud â'r Undeb yn ei gyfanrwydd. Mae'n cwmpasu'r polisïau hynny sy'n darparu ar gyfer ei nodau gwleidyddol a diwydiannol, ei strwythurau llywodraethu a democrataidd, a'i wasanaethau i aelodau. Nid yw'n cynnwys swyddogaethau a phenderfyniadau gweithredol, ariannol a gweinyddol o ddydd i ddydd.

T23. Gall y Cyngor gyflwyno cynigion a gwelliannau i'w trafod ar ei ran ei hun. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar hyd geiriau yn berthnasol i gynigion a diwygiadau o'r fath. Gall y Cyngor hefyd gyflwyno cynigion ar gyfer unrhyw bwyllgor nad yw'n cael ei gynrychioli mewn Cynhadledd Equity. Bydd Rheol T21 yn berthnasol i gynigion a gyflwynir i bwyllgorau.

T24. Rhaid i bob cynnig a gwelliant gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn y terfyn amser a bennir gan y Cyngor.

T25. Ni fydd cynigion hwyr yn cael eu derbyn oni bai bod y Cyngor yn penderfynu bod y cynnig yn ymwneud â mater brys a gododd ar ôl, neu na ellid yn rhesymol fod wedi gwybod amdano cyn y dyddiad cau. Bydd penderfyniad y Cyngor yn hyn o beth yn derfynol ac yn rhwymol.

T26. Caniateir cyfuno cynigion a gwelliannau â chynigion a gwelliannau eraill (wedi'u cyfansoddi) gyda chaniatâd y cynigwyr a Phwyllgor Busnes y Gynhadledd.

*Trefniant Busnes*

T27. Heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos cyn y gynhadledd, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cynnull cyfarfod o Bwyllgor Busnes y Gynhadledd.

T28. Bydd Pwyllgor Busnes y Gynhadledd yn:

(1) ystyried a yw cynnig yn cydymffurfio â Rheol T21; ac yn

(2) paratoi'r agenda ddrafft a fydd yn cynnwys amserlen y cynigion ar gyfer eu trafod.

T29. Cyflwynir yr agenda ddrafft i'r Cyngor i'w chymeradwyo. Gall y Cyngor dynnu eitemau oddi ar yr agenda ddrafft y mae'n teimlo nad ydynt yn cydymffurfio â Rheol T21.

T30. Gall Pwyllgor Busnes y Gynhadledd ddiwygio testun unrhyw gynnig er mwyn:

(1) cywiro unrhyw faterion gramadeg neu gamsillafu a/neu egluro ei ystyr os oes angen; neu er mwyn

(2) dod ag ef o fewn Rheol T21, gyda chaniatâd y cynigydd.

*Cworwm*

T31. Mae Cynhadledd Equity yn ddilys os yw o leiaf un rhan o dair o'r rheini sydd â hawl i fod yn bresennol ac i bleidleisio yn bresennol.

## U. Cynhadledd Arbennig

*Wedi'i galw gan y Cyngor*

U1. Gall y Cyngor alw Cynhadledd Arbennig mor aml ag y bydd yn penderfynu bod angen. Gall Cynhadledd Arbennig drafod unrhyw fusnes y'i gelwir ar ei gyfer, ond dim ond y busnes hwnnw.

*Trefniadau*

U2. Bydd y Cyngor yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer pob Cynhadledd Arbennig a bydd Rheolau T4 i T16 yn berthnasol. Gellir cynnal Cynhadledd Arbennig wyneb yn wyneb neu ar-lein (neu gyfuniad o'r ddau), fel y bydd y Cyngor yn penderfynu.

U3. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar drefn ac amserlen y busnes. Gall, os yw'n dymuno, gyfarwyddo Pwyllgor Busnes y Gynhadledd i baratoi'r agenda ddrafft i'w chymeradwyo.

U4. Ni fydd unrhyw gynnig yn cael ei dderbyn ar agenda Cynhadledd Arbennig os yw'n cynnig gweithredu sy'n groes i Reolau neu Nodau'r Undeb neu y tu allan i Bwerau'r Undeb. Bydd penderfyniad y Cyngor yn hyn o beth yn derfynol ac yn rhwymol.

*Cworwm*

U5. Mae Cynhadledd Arbennig yn ddilys os yw o leiaf un rhan o dair o'r rheini sydd â hawl i fod yn bresennol ac i bleidleisio yn bresennol.

## V. Rheolau Trafodaeth

*Perthnasedd*

V1. Bydd y Rheolau Trafod hyn yn berthnasol i bob:

(1) Cynhadledd Undeb;

(2) cyfarfod Cyngor;

(3) cyfarfod pwyllgor;

(4) cyfarfod cangen; a

(5) chyfarfod Cenedlaethol, Rhanbarthol a Chyffredinol.

*Siaradwyr*

V2. Bydd y siaradwyr yn annerch y Cadeirydd bob amser.

V3. Ni chaiff unrhyw aelod dorri ar draws siaradwr oni bai ei fod yn codi mater o weithdrefn neu wybodaeth gyda chaniatâd y Cadeirydd. Mae mater gwybodaeth yn golygu cais am wybodaeth.

V4. Mewn cynhadledd, bydd dyfarniad y Cadeirydd (ar unrhyw bwynt) yn rhwymol oni chaiff ei herio gan o leiaf 10 aelod sydd â hawl i bleidleisio. Ym mhob cyfarfod arall, gall o leiaf ddau aelod sydd â hawl i bleidleisio godi'r her. Bydd pob aelod sydd â hawl i bleidleisio wedyn yn pleidleisio ar unwaith a ddylid cefnogi dyfarniad y Cadeirydd.

*Cynigion*

V5. Bydd y Cadeirydd yn caniatáu trafodaeth ar gynnig yn unig.

V6. Bydd pob cynnig a gwelliant yn cael eu cynnig a'u heilio cyn eu trafod.

V7. Ni fydd cywiriadau gramadegol i gynnig yn cael eu hystyried yn welliant.

V8. Ni all cynigion neu welliannau a gynigiwyd ac a eiliwyd eu tynnu'n ôl gan y cynigydd heb ganiatâd y cyfarfod neu'r gynhadledd.

V9. Mae gan y sawl sy'n gwneud y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ond ni chaiff gyflwyno unrhyw fater newydd. Ni chaiff unrhyw aelod arall siarad fwy nag unwaith ar unrhyw gynnig neu welliant heb ganiatâd arbennig y Cadeirydd.

V10. Pan fydd cynigydd cynnig wedi ymateb, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais. Ni chaniateir trafodaeth bellach ar yr un pwnc.

V11. Bydd y bleidlais/pleidleisiau ar gynnig diwygiedig yn digwydd cyn unrhyw bleidlais/pleidleisiau ar y cynnig gwreiddiol. Os caiff ei dderbyn, bydd y cynnig diwygiedig yn cael ei roi gerbron y cyfarfod fel y cynnig gwirioneddol.

V12. Caiff aelod nad yw wedi siarad o'r blaen yn y drafodaeth ar gynnig awgrymu ei fod wedi'i drafod yn ddigonol ac y dylid ei roi i bleidlais yn awr. Os caiff ei dderbyn gan y Cadeirydd a'i gefnogi (heb drafodaeth), gall cynigydd y cynnig ateb cyn iddo gael ei roi i bleidlais.

*Galw i Drefn*

V13. Bydd unrhyw aelod sy'n cael ei alw i drefn gan y Cadeirydd sy'n gwrthod cydymffurfio â'r alwad yn cael ei ddiarddel o'r cyfarfod.

*Atal*

V14. Gellir atal unrhyw un o'r rheolau trafodaeth hyn am hyd at 30 munud os bydd dwy ran o dair o'r rheini sy'n pleidleisio o blaid ac yn erbyn yn pleidleisio o'i phlaid.

## W. Pwyllgor Apeliadau

*Etholiad*

W1. Bydd gan yr Undeb Bwyllgor Apeliadau sy'n cynnwys pum aelod mewn budd (nad ydynt yn staff nac yn aelodau o'r Cyngor).

W2. Etholir y pum aelod drwy bleidlais lawn o'r Undeb. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll etholiad i'r Cyngor ar yr un pryd â sefyll etholiad i'r Pwyllgor Apeliadau.

W3. Cynhelir yr etholiad ar yr un pryd ag etholiadau Cyngor yr Undeb a bydd Rheol J20 yn berthnasol o ran cyhoeddi'r amserlen.

W4. Bydd pob ymgeisydd yn aelod mewn budd ar y dyddiad y mae'r enwebiadau'n agor ac yn cael eu cynnig a'u heilio gan ddau aelod mewn budd arall. Dylid gwneud enwebiadau yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gan ddefnyddio ffurflen enwebu'r Undeb.

W5. Bydd y pum ymgeisydd sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

*Tymor*

W6. Bydd tymor y Pwyllgor Apeliadau am ddwy flynedd gan gychwyn o'r dyddiad y cyhoeddir canlyniad yr etholiad.

W7. Os daw sedd yn wag (am unrhyw reswm) cyn i'r tymor ddod i ben, bydd yr aelodau sy'n weddill yn dewis aelod arall (nad yw'n staff nac yn aelod o'r Cyngor) i'w llenwi.

*Dyletswyddau*

W8. Mae'r Pwyllgor Apeliadau yn gwrando ar:

(1) apeliadau disgyblu yn unol â Rheol S13; ac

(2) apeliadau disgyblu gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn unol â'r weithdrefn apelio y bydd y Cyngor yn ei gwneud at y diben hwn o bryd i'w gilydd.

W9. Bydd angen o leiaf tri aelod o'r Pwyllgor Apeliadau i benderfynu ar apêl.

W10. Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ethol un o'i aelodau i fod yn Gadeirydd arno. Os bydd pleidlais gyfartal ar unrhyw fater, bydd pleidlais y Cadeirydd yn cyfrif fel dwy bleidlais.

## X. Pwyllgor Busnes y Gynhadledd

*Etholiad*

X1. Bydd gan yr Undeb Bwyllgor Busnes y Gynhadledd a fydd yn cynnwys pum aelod mewn budd (nad ydynt yn staff nac yn aelodau o'r Cyngor) a phedwar aelod o'r Cyngor.

X2. Bydd y pum aelod nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor yn cael eu hethol drwy bleidlais lawn o'r Undeb. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll etholiad i'r Cyngor ar yr un pryd â sefyll etholiad i Bwyllgor Busnes y Gynhadledd.

X3. Cynhelir yr etholiad ar yr un adeg ag etholiadau Cyngor yr Undeb a bydd Rheol J20 yn berthnasol o ran cyhoeddi'r amserlen.

X4. Bydd yr ymgeiswyr yn Rheol X2 yn aelodau mewn budd ar y dyddiad y bydd enwebiadau'n agor ac yn cael eu cynnig a'u heilio gan ddau aelod mewn budd arall. Dylid gwneud enwebiadau yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gan ddefnyddio ffurflen enwebu'r Undeb.

X5. Bydd y pum ymgeisydd yn Rheol X2 sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

X6. Bydd y pedwar aelod o'r Cyngor ar Bwyllgor Busnes y Gynhadledd yn cael eu hethol o'r Cyngor gan y Cyngor ar ddechrau ei dymor.

*Tymor*

X7. Bydd tymor Pwyllgor Busnes y Gynhadledd am ddwy flynedd, gan gychwyn o'r dyddiad y cyhoeddir canlyniad yr etholiad.

X8. Os daw sedd a feddiannir gan aelod o'r Cyngor yn wag (am unrhyw reswm) cyn i'r tymor ddod i ben, bydd gweddill aelodau'r Cyngor yn dewis cynghorydd arall i'w llenwi. Os daw sedd a feddiannir gan aelod nad yw'n aelod o'r Cyngor yn wag (am unrhyw reswm) bydd gweddill yr aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor yn dewis aelod arall (nad yw'n gynghorydd) i lenwi'r sedd wag.

*Dyletswyddau*

X9. Bydd Pwyllgor Busnes y Gynhadledd yn trefnu busnes Cynhadledd Equity yn unol â Rheolau T27 i T30. Gall drefnu busnes unrhyw gynhadledd neu gyfarfod Undeb arall os caiff ei ddirprwyo i wneud hynny gan y Cyngor.

## Y. Refferendwm

Y1. Gall y Cyngor, yn ei ddisgresiwn llwyr, gynnal pleidlais o'r Undeb cyfan (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel "Refferendwm") ar unrhyw gwestiwn, cynnig neu benderfyniad.

Y2. Penderfynir ar Refferendwm drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd.

Y3. Bydd canlyniadau Refferendwm yn rhwymol hyd nes y cânt eu dirymu neu eu newid gan Refferendwm pellach neu gynnig sy'n cael ei basio mewn Cynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig.

Y4. Cyhoeddir canlyniadau Refferendwm gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.

## Z. Newidiadau i Reolau

*Copïau o'r Rheolau hyn*

Z1. Rhoddir copi o'r Rheolau hyn i bob aelod wrth ymuno.

Z2. Bydd copi o gyhoeddiad diweddaraf y Rheolau hyn ar gael ar wefan yr Undeb ac ar gais.

*Dull ar gyfer Gwneud Newidiadau*

Z3. Gellir dirymu, newid neu ychwanegu at y Rheolau hyn gan:

(1) gynnig Cyngor sy'n cael ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair mewn Cynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig; neu

(2) bleidlais fwyafrif syml ar ffurf Refferendwm.

Z4. Bydd y Cyngor yn penderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, pa ddull yn Rheol Z3 sy'n briodol.

Z5. Gellir hefyd cyflwyno cynnig ar gyfer newid rheol i Gynhadledd Equity yn unol â Rheolau T17 i T21. Os caiff y newid ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair, bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i eiriad y cynnig (ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol) y mae'n eu hystyried yn ddymunol at ddiben eglurder a chysondeb drafftio â'r Rheolau hyn. Bydd y Cyngor wedyn yn cyflwyno'r cynnig i Gynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig neu i Refferendwm yn unol â Rheol Z3(1) neu Z3(2).

Z6. Gall cynnig gan y Cyngor ar gyfer newid rheol a gyflwynir i Gynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig gael ei roi i Refferendwm wedyn os bydd y Cyngor yn penderfynu hynny. Ni fydd cynnig gan y Cyngor sy'n methu â phasio drwy Refferendwm yn cael ei roi i Gynhadledd Equity nac i Gynhadledd Arbennig o fewn yr un tymor â'r Cyngor.

Z7. Daw'r holl newidiadau i'r rheolau i rym ar y dyddiad a benderfynir gan y Cyngor, a hysbysir yr aelodau ym mhapur pleidleisio'r cynnig neu refferendwm.

## AA. Diddymiad yr Undeb

AA1. Gellir diddymu'r Undeb dim ond drwy gynnig:

(1) sy'n cael ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair mewn Cynhadledd Equity neu Gynhadledd Arbennig; ac

(2) sydd wedi'i gymeradwyo gan dri chwarter yr holl aelodau sy'n pleidleisio drwy Refferendwm.

AA2.Os caiff y cynnig ei basio a'i gymeradwyo, bydd y Cyngor yn parhau yn ei le hyd nes y daw materion yr Undeb i ben.

AA3. Bydd unrhyw arian dros ben gan yr Undeb, ar ôl darparu ar gyfer yr holl rwymedigaethau hysbys, yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Undeb, o'r dyddiad y cyhoeddir canlyniad y Refferendwm, yn y modd y bydd y Cyngor yn penderfynu arno.

## Pryd daeth y Rheolau hyn i rym?

Daeth y Rheolau hyn, ar wahân i Reol J2 i G4 a Rheol D32, i rym ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor lle cyhoeddwyd canlyniad y refferendwm, 6 Rhagfyr 2022 ("y Dyddiad Dod i Rym").

1. Mae rheolau J2 i J4 yn ymwneud â chyfansoddiad Cyngor yr Undeb. Maent yn darparu y bydd y Cyngor yn cynnwys 35 o aelodau, gan gynnwys y Llywydd. Ni fydd y newidiadau yn Rheolau J2 i J4 yn dod i rym tan y dyddiad y bydd y Cyngor olynol yn dechrau ei dymor newydd yn 2024. Mae cyfansoddiad y Cyngor presennol yn parhau i fod yn unol â Rheol 13.1 blaenorol.

2. Mae Rheol D32 yn ymwneud â'r ffaith bod aelodaeth yn dod i ben yn awtomatig ar gyfer y rheini y mae eu tanysgrifiad yn fwy na 13 wythnos mewn dyled. Daw'r newidiadau yn Rheol D32 i rym ar 1 Mawrth 2023. Mae'r darpariaethau dod i ben awtomatig yn Rheol 8.4 blaenorol yn parhau i fod yn berthnasol tan y dyddiad hwn.

3. Mae newidiadau i'r Rheolau sy'n ymwneud ag etholiadau'r Undeb yn berthnasol o'r Dyddiad Dod i Rym. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw newidiadau o'r fath, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sy'n ymwneud â chymhwystra ymgeisydd, yn cael effaith ôl-weithredol. Mewn geiriau eraill, nid ydynt yn berthnasol i unrhyw etholiad nac i unrhyw ymgeisydd mewn etholiad a gynhaliwyd cyn y Dyddiad Dod i Rym.

EQUITY

EQUITY